Ymateb-Perthynas-Ymgysylltu-Dawns

Sefydliad dawns cymunedol yw Dawns i Bawb (DiB), sy'n gwasanaethu Gogledd Orllewin Cymru, gan gynnwys ardaloedd dinesig a gwledig, dinas ac ynys! Mae'n unigryw, gan ei fod yn un o nifer fach iawn o sefydliadau dawns yng Nghymru sy'n gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyfarwyddwr Artistig, **Catherine Young**, yn pwysleisio ei werth.

Bydd DiB yn dathlu ei ben-blwydd yn 30 oed yn 2019. Fodd bynnag, rwyf i newydd ddathlu ail flwyddyn fel Cyfarwyddwr Artistig DiB. Gyda'r penodiad newydd hwn, gwelodd Bwrdd Cyfarwyddwyr DiB gyfle i roi newidiadau ar waith, gan roi tasg gychwynnol i mi, sef datblygu'r canlynol:

- rhoi pwyslais mwy ar yr iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar ein darpariaeth
- defnyddio fy sgiliau fel coreograffydd i ddatblygu ein darpariaeth
- rhoi sylw i lefelau isel ymgysylltu â dawns a datblygu ein perthnasau.

Roedd hwn yn newid cyffrous i'r sefydliad ac roedd yn rhoi'r cyfle i mi roi fy ngweledigaeth i ar waith mewn rhaglen a oedd eisoes yn llwyddiannus a chyffrous. Ar ôl i mi fod yn gweithio yn fy swydd newydd am gyfnod o chwe mis, daeth yr amser i ddiweddaru ein Cynllun Busnes dros Bedair Blynedd ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru. Cyflwynais gynnig gerbron Bwrdd y Cyfarwyddwyr i ailysgrifennu ein Datganiad o Fwriad (sydd bellach ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan). Teimlais roedd angen i ni gael datganiad oedd yn fwy perthnasol i'n gweledigaeth newydd, a oedd yn cynnwys hanes DiB a'i ethos parhaus, gan fod yn ddatganiad 'byw' ar yr un pryd. Hynny yw, datganiad a fyddai'n cael ei ystyried yn gyson wrth ymateb i'r hyn rydym yn ei gynllunio a'r hyn rydym yn ei wneud. Wrth ddarllen y datganiad o fwriad cyfredol, cododd llawer o gwestiynau: Beth rydym ni'n ei ddweud? Wrth bwy? Beth yw ei bwrpas? Beth fydd yn digwydd i'r datganiad o fwriad ar ôl iddo gael ei ysgrifennu? A pha effaith byddai hyn yn ei gael?

Trwy benderfynu ailysgrifennu'r datganiad o fwriad, roedd gen i gyfle i ystyried yr holl gwestiynau uchod. Roeddwn i'n dymuno i'r holl dîm ystyried hon yn ddogfen 'fyw'; dogfen byddwn ni'n cyfeirio ati'n gyson wrth i ni gynllunio a datblygu ein darpariaeth, dogfen sydd wastad ar flaen ein meddyliau (yn hytrach na bod yn ddogfen a ysgrifennwyd fel gweithred wag sy'n cael ei rhoi ar silff i hel llwch ar ôl iddi gael ei hysgrifennu). Yn bwysicaf oll, roeddwn i eisiau i'r ddogfen fod ar gael i bawb sy'n dymuno ei darllen a chreu dogfen hygyrch fel bod pob unigolyn yn teimlo ei bod yn berthnasol iddyn nhw.

Gan gadw mewn cof y nod o sicrhau bod y ddogfen ar gael i bawb ac yn berthnasol i bawb, penderfynon ni rannu ein datganiad o fwriad yn gyhoeddus ar ein gwefan ac ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn yn golygu roedd rhaid i ni feddwl yn ofalus am beth oedden ni'n dymuno i'r darllenwr ei wybod a'r teimlad roedden ni eisiau ei ysgogi yn y darllenwr. Fy safbwynt i oedd, os oedd hwn yn wirioneddol am fod yn ddatganiad o fwriad, roedd rhaid iddo weithredu fel ein Act Agoriadol. Roedd rhaid iddo fod yn rhywbeth oedd yn dal sylw pobl o'r cychwyn cyntaf. Rydym yn cyfeirio at y gair 'ymgysylltu' yn aml o fewn y sector celfyddydau cymunedol yng Nghymru. Mae wastad yn destun trafod - beth ydym ni'n ei olygu wrth ei ddefnyddio? Ai hwn yw'r gair iawn i ddisgrifio ein gwaith? A yw'n amser i ni symud ymlaen a defnyddio term arall? Mae gen i gydweithwyr nad ydynt yn hoffi'r defnydd o'r term 'ymgysylltu' wrth gyfeirio at eu gwaith, gyda rhai yn osgoi ei ddefnyddio yn fwriadol wrth gyfeirio at eu hymarfer.

Nid wyf yn rhannu'r farn hon. Rwy'n teimlo bod ymgysylltu yn un o'r agweddau pwysicaf ar ein gwaith a dim ond trwy ymgysylltu y mae modd i ni gyflawni ein hamcanion dawns cymunedol. Mae ein datganiad o fwriad yn trafod ymgysylltu yn fwy na'r gweithgaredd o ddawnsio ei hun, ac mae hyn yn fwriadol. Rydym yn ymgysylltu â phobl a chymunedau yn ystod y ddawns, ond weithiau mae angen i ni ymgysylltu cyn y ddawns hefyd, a dyma beth rydym yn ei ystyried yn ein datganiad o fwriad ac yn ein gweledigaeth. Rydym yn cyfeirio at ddau air allweddol rwy'n eu hystyried yn rhan o'r broses ymgysylltu - ymateb a pherthynas - a rhaid iddynt fod yn ganolog i'r broses i ni allu cyflawni ein nod. Pan fydd perthnasau yn cael eu ffurfio, bydd ymgysylltu yn dilyn o hynny. Rydym yn ffurfio perthnasau trwy ymateb i'r cymunedau, grwpiau a'r bobl rydym yn gweithio gyda hwy. Felly, mae gennym broses sy'n dilyn y drefn ganlynol – ymateb-perthynas-ymgysylltu-dawns.

Rwy'n cyfeirio at y broses hon wrth gynllunio ein rhaglen. Nid yw'r cysyniad hwn yn unrhyw beth newydd, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio yn ein proffesiwn ni. Gwyddwn mai dyma beth rydym yn ei wneud. Y cwestiwn gofynnais i fy hun oedd, a yw ein cymunedau yn gwybod hyn? Mae'n broses bwysig iawn, yn enwedig i'r rhai ohonom sy'n gweithio â phobl a

Ffotograff: Dawns i Bawb

chymunedau lle, yn ôl yr ystadegau, mae lefelau ymgysylltu â dawns yn isel iawn neu nid oes unrhyw ymgysylltu o gwbl. Teimlais os oedden ni'n dymuno i'r datganiad o fwriad fod yn berthnasol i bawb, roedd yn bwysig ein bod yn cyfeirio at y broses hon hefyd. Felly, rydym yn datgan er ein bod yn credu gall unrhyw un ddawnsio ac yn credu'n gyfan gwbl yn y buddion gall ddeillio o ddawnsio, nid yw pawb yn cytuno bod dawnsio yn 'addas iddyn nhw.' Rydym yn cydnabod fod yr agwedd hon tuag at ddawns yn bodoli, ond rydym yn anelu at greu cyfleoedd cyffrous ac arloesol sy'n herio'r agwedd hon.

Mae'r syniad hwn wedi helpu ni ddiffinio ein gwaith. Rydym wedi bod yn archwilio ffyrdd gwahanol i sbarduno ymgysylltu ac adeiladu perthnasau. Er enghraifft, dawnsiau annisgwyl (pop-up dances) mewn lleoliadau prysur yn ein cymunedau, gan alluogi'r rhai hynny na fyddai'n penderfynu mynd i weld perfformiad dawns i 'faglu dros' dawns. Ar Ddydd Sant Ffolant eleni, cafodd dawnswyr o'n sesiynau wythnosol gyfle i wahodd un o'u hanwyliaid i fynychu'r sesiwn dawns gyda nhw. Penderfynodd rai gymryd rhan, tra roedd eraill yn gwylio'n unig. Fodd bynnag, roedd bron pawb a ddaeth i'r sesiynau yn bobl nad oedd yn ymwneud â dawns ac felly dechreuodd y broses ymgysylltu.

Ein her fwyaf yng nghyswllt y broses ymgysylltu oedd yn ystod sioe ddawns gymunedol flynyddol 2017, lle gafodd y fformat ei newid yn gyfan gwbl. Y syniad oedd archwilio i broses ymgysylltu ein cymunedau fel aelodau o gynulleidfa; gan weithredu fel cam tuag at ddatblygu perthnasau a fyddai'n arwain yn y pen draw at ymgysylltu dwysach. Roeddwn i eisiau i'n sioe fawr flynyddol fod yn fwy na digwyddiad lle'r oedd grwpiau gwahanol yn cael eu hamser ar y llwyfan ac mae'r gynulleidfa yn llawn rhieni sy'n mynychu i weld eu plant yn perfformio. Roeddwn i eisiau digwyddiad a fyddai'n apelio at gynulleidfa ehangach – rhywbeth y byddai'n cyffroi ein cymunedau ac yn destun trafod i bawb.

Gan gadw hwn mewn cof, aethom ati i greu addasiad o Un Noswyl Nadolig drwy gyfrwng dawns, lle'r oedd yr holl grwpiau yn cyfrannu at un cynhyrchiad mawr yn hytrach na chyfres o ddawnsiau gwahanol. Roedd y sioe yn llwyddiant ysgubol a chafodd pob tocyn ei werthu, gyda theulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach yn bresennol.

Roedd y lefel ymgysylltu â'r gynulleidfa yn well nac erioed o'r blaen; roedd hyn yn amlwg o'r adborth a gafwyd. Blwyddyn yn ddiweddarach, mae pobl dal i siarad gyda ni am y sioe, gan sôn am sut wnaeth y sioe wneud iddynt deimlo a gofyn pryd fydd y perfformiad nesaf yn digwydd. Gwelsom ni gynnydd yn y nifer o bobl yn mynychu ein dosbarthiadau, ynghyd â rhagor o bobl yn ymgysylltu â ni trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae rhagor o bobl yn gwybod pwy yw DiB, beth rydym yn ei gynnig a beth all dawns ei gynnig. Efallai nad ydynt yn bobl sy'n dod i'r stiwdio dawns (eto!) ond rydym yn ystyried y profiad hwn fel rhan o'r broses ymgysylltu sydd yr un mor bwysig ag ymgysylltu yn y stiwdio dawns ei hun.

www.dawnsibawb.org
catherine@dawnsibawb.org
facebook.com/dawnsibawb
@dawnsibawb
01286 685 220